Jane Hutt AS
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

30 Medi 2020

Annwyl Jane

Cyfeiriwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diweddar y Bil Cam-drin Domestig (LCM) at ein pwyllgorau i'w ystyried. Rhoddwyd ystyriaeth gychwynnol i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein priod gyfarfodydd ddydd Llun 28 Medi ac rydym wedi cytuno i ysgrifennu atoch ar y cyd i ofyn am eglurder ar nifer o faterion.

Er i'r Bil gael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 3 Mawrth 2020, ni chafodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei osod gerbron y Senedd tan 3 Awst 2020. Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn dweud y dylid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol "dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno". Er ein bod yn nodi bod cymalau 3 a 65 (sy'n gymalau perthnasol at ddibenion y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol) wedi'u cynnwys yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, nid yw'n eglur pam y bu oedi cyn gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 66, 68 a 73. Byddem yn gwerthfawrogi eich esboniad ynghylch pam y bu oedi cyn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn?

Rydym wedi nodi nad yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei hun yn darparu dadansoddiad o sut mae'r darpariaethau a restrir yn y Memorandwm o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn nodi yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil nad yw'r materion y mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud

â hwy “o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru” ac felly nad oes angen cydsyniad, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn darparu’r dadansoddiad a wnaethoch er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd.

Rydym hefyd yn nodi bod gan gymal 3, lle gofynnir am gydsyniad, gysylltiad â'r diffiniad o “gam-drin domestig” yng nghymal 1, sydd yn ei dro yn gysylltiedig â'r diffiniad o “wedi'i gysylltu'n bersonol” yng nghymal 2. Pam rydych chi'n ystyried nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 1 a 2 pan gredwch fod angen cydsyniad ar gymal 3?

Gan fod angen inni adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn 5 Tachwedd, byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Llun 12 Hydref.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Mick Antoniw

Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

John Griffiths

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.